



Mae'r rhaglen Datblygu Masnach Ryngwladol (ITD) yn cynnig help ymarferol ac arbenigol i allforwyr newydd a phrofiadol ledled Cymru er mwyn eu helpu i ddatblygu'r galluoedd i fasnachu'n rhwydd ac yn hyderus mewn marchnadoedd rhyngwladol.

Sut fedrwch chi elwa?

Gall ITD fod yn erfyn defnyddiol i'ch paratoi ar gyfer allforio. Cynigir help o bob math gan gynnwys:

- Datblygu strategaeth allforio
- Cael hyd i'r farchnad sydd orau i chi ac yna ymchwilio iddi
- Penderfynu ar y llwybr i'r farchnad neu i'ch partner yn y farchnad
- Ystyriaethau ariannol fel prisiau, talu, arian tramor a threthi
- Trefniadau, rheoliadau a logisteg allforio

Mae gennym dîm o arbenigwyr wrth law a chanddynt amrywiaeth o brofiadau a sgiliau marchnata ac allforio. Bydd cyfle ichi siarad â nhw am eich pryderon a'ch anghenion.

Caiff pecyn arbennig i chi ei ddatblygu a'i gyflwyno ichi wyneb-yn-wyneb.

Llywodraeth Cymru sy'n talu am y rhaglen ITD a gall unrhyw gwmni, waeth beth yw ei faint, sydd am ehangu trwy allforio ymgeisio amdani. Bydd rhaid bodloni'r amodau.

"Mae'r rhaglen ITD wedi bod yn werthfawr iawn i'n helpu i ddeall sut i dargedu dwy farchnad, Awstralia a Seland Newydd. Dangosodd inni beth oedd y cyfleoedd, sut i gyrraedd y marchnadoedd a'r prif ystyriaethau wrth fentro iddynt, a hynny mewn ffordd ofalus a threfnus. Bydd ITD yn hanfodol i gipio busnes yn y marchnadoedd newydd hyn ac rwy'n annog cynhyrchwyr o Gymru i fanteisio'n llawn arni"

Siobhan Fotheringham, Cyfarwyddwr Masnachol Adwerthu Rhyngwladol, Morning Foods

Busnes | Business Cymru | Wales

Os ydych yn meddwl y gallech elwa ar y cymorth hwn, cysylltwch â Busnes Cymru ar 03000 6 03000 neu anfonwch e-bost i bwyd-food@gov.wales businesswales.gov.wales/foodanddrink

 @BwydaDiodCymru